St David's
Coleg Catholig Dewi Sant
Catholic Sixth Form College

ADDASRWYDD I ASTUDIO

Fframwaith i gefnogi myfyrwyr i'w galluogi i wneud cynnydd a chyflawni.

Awdur	***Geraint Williams ac Batool Akmal***
Dyddiad Cyhoeddi	*15/03/2024*
Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb	*Y*
Asesiad o Effaith Ieithyddol	*Y*
Statws	*byw*
Cymeradwywyd gan	*Diwylliant ac Ethos*
Dyddiad cymeradwyo	*12/03/2024*
Dyddiad adolygu	*Mawrth 2024*
Dyddiad dechrau	*15/03/2024*

Cynnwys

Cyflwyniad ***3***

Cwmpas y Polisi ***4***

Ymdrin â phryderon a datgeliadau ***5***

Cefnogaeth ac arweiniad cychwynnol ***5***

Prosesau derbyn ***6***

Cam 1: Pryderon yn Dod i'r Amlwg ***6***

Cam 2: Pryderon cychwynnol parhaus neu gryf ***7***

Cam 3: Pryder uniongyrchol a difrifol neu dim cynnydd ers cam 2 ..... ***8***

Apeliadau ***9***

Atodiad 1 – Cynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol ***10***

Atodiad 2 – Asesiad Risg Dysgwr ***14***

Cyflwyniad

i. Mae'r polisi hwn wedi'i ddatblygu fel rhan o ymrwymiad Coleg Dewi Sant i wireddu potensial pawb yn ein cymuned, fel y'i cwmpaswyd yn ein cenhadaeth:

'Coleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch a ysbrydolwyd gan Grist.'

ii. Mae'r polisi hwn yn ceisio cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn trwy annog eu cyfranogiad llawn ym mywyd y coleg fel y gallant wneud cynnydd llwyddiannus yn eu bywydau, yn academaidd ac yn ysbrydol.

iii. Fel coleg rydym wedi ymrwymo i dynnu rhwystrau i ddysgu a byddwn yn gweithio gyda dysgwyr i hyrwyddo eu cynhwysiant ym mhopeth sydd gan y coleg i'w gynnig.

iv. Rydym yn cydnabod effaith ddofn trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) ar les a datblygiad unigolion. Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu dull wedi'i lywio gan drawma yn ein polisïau a'n harferion i greu amgylchedd diogel, cefnogol ac iach i bawb.

v. Rydym am gefnogi pob dysgwr trwy ymateb graddedig, wedi'i lywio gan drawma, i sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud cynnydd a chyflawni.

vi. Mae'r coleg yn dilyn gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan mewn perthynas â materion llesiant penodol ac adnabyddadwy sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad i'w haddysg, neu lle mae pryderon diogelu.

vii. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- **Polisi Ysgoloriaeth**
- **Polisi Presenoldeb Dysgwyr**
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan**
- **Polisi Diogelu**
- **Gweithdrefnau Diogelu ac Amddiffyn Plant.**
- **Cwynion Dysgwyr**
- **Polisi Camddefnyddio Sylweddau**
- **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

- **Polisi Iechyd a Diogelwch**

Cwmpas y Polisi

i. Mae’r coleg yn disgwyl bod pob dysgwr yn cynnal y disgwyliadau craidd, gan ein galluogi i greu amgylchedd dysgu sy’n ddiogel i bawb.

ii. Fel coleg sydd wedi'i lywio gan drawma, mae Coleg Dewi Sant yn cydnabod y gall fod llawer o amgylchiadau lle gallai cyd-destun ehangach, ymyrraeth arbenigol ac effaith ar ei hun ac/neu eraill olygu na all dysgwr gydnabod neu benderfynu ei fod yn gosod gofynion afresymol arno’i hun, staff y coleg neu fod ei amgylchiadau’n cael effaith ddwys ac annifyr ar lwyddiant a llesiant eu hun ac/neu eraill.

iii. Mae'r coleg wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr gydag anableddau ac anghenion dysgu mewn ffyrdd sy'n bodloni'u hanghenion unigol yn effeithiol, gan wneud yr addasiadau rhesymol priodol.

iv. Mae’r polisi hwn yn amlinellu’r weithdrefn ar gyfer rheoli achosion lle mae iechyd corfforol a meddyliol dysgwr yn ei atal rhag cael budd o'r ddarpariaeth addysg y gall y coleg ei chynnig neu’n cael effaith andwyol ar brofiad dysgu eraill ac wedi ymestyn y tu hwnt i feysydd addasiadau rhesymol a/neu’r cymorth bugeiliol a lles y gall y coleg ei gynnig.

v. Mae’r coleg yn amlinellu’r cymorth a’r camau gweithredu y bydd y coleg yn eu cymryd, lle nad yw dysgwr yn gallu bodloni disgwyliadau’r coleg o fod **‘yn barod, yn barchus ac yn ddiogel’** a bernir nad yw'n briodol defnyddio polisi ysgoloriaeth y coleg oherwydd amgylchiadau’r dysgwr.

vi. Os bydd ymddygiad dysgwr yn peri risg sylweddol enbyd i’w ddiogelwch neu ddiogelwch eraill, dylid rhoi gwybod i’r gwasanaethau brys priodol ar unwaith.

vii. Nid oes angen mynd trwy bob cam o’r broses ym mhob achos. Bydd nodi'r cam addas o'r weithdrefn i'w ddefnyddio yn cael ei benderfynu yn dilyn asesiad risg gan y coleg. Os bydd risg difrifol yn cael ei nodi, gellir dechrau’r weithdrefn yng ngham 2 neu 3 yn dibynnu ar lefel y risg. Os bydd dysgwr yn anfodlon cymryd rhan yn y gweithdrefnau, bydd y broses yn parhau yn ei absenoldeb gyda’r holl opsiynau’n parhau i fod ar gael.

viii. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw ddysgwr o gofrestriad os yw wedi bod yn absennol yn barhaus o'r coleg am gyfnod o ddim llai na phedair wythnos ac nad yw'r coleg, ar ôl ymholiad rhesymol, wedi gallu dod o hyd i'r dysgwr.

ix. Bydd y Coleg yn cymryd camau **rhesymol** i sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu gosod dan anfantais sylweddol o ganlyniad i anabledd, angen dysgu ychwanegol, profiad o drawma neu hanes.

x. Mae '**rhesymol**' yn cynnwys ystyriaeth nad yw'r coleg yn peryglu safonau academaidd, y gallu i gyflawni'r gofynion a osodwyd gan y corff dyfarnu, iechyd a diogelwch neu ddiddordeb perthnasol unigolion eraill.

xi. Nid yw hon yn ddogfen gyfreithiol.

Ymdrin â phryderon a datgeliadau

Mae data personol yn cael eu trin, prosesu a storio yn unol â GDPR. Bydd data personol sensitif yn cael eu dal gan y tîm diogelu ac ond yn cael eu rhannu gyda chydsyniad y dysgwr neu lle:

- Mae ymddygiad dysgwr yn bygwth ei ddiogelwch neu ddiogelwch eraill
- Byddai aelod o'r coleg yn agored i gosb sifil neu droseddol am fethu â datgelu.

Cefnogaeth ac arweiniad cychwynnol

i. Cyn rhoi'r broses hon ar waith, yn y mwyafrif o achosion, rhaid bod yna dystiolaeth sy'n dangos dialog cefnogol parhaus rhwng y dysgwr, staff, ac os yw'n briodol, y rhiant/gwarcheidwad. Rhaid uwchlwytho tystiolaeth o'r rhain i Staff Advantage / MyConcern.

ii. Mae tiwtoriaid bugeiliol yn parhau i fod yn gyfrifol am fonitro presenoldeb a diweddaru staff ar unrhyw gamau a gytunwyd mewn cyfarfodydd gyda'r dysgwr a/neu rieni. Mewn achos sy'n ymwneud â mater diogelu, gallai natur frys y sefyllfa ofyn am roi'r broses ar waith heb y fath ddialog blaenorol.

iii. Pan fydd datgeliad yn cael ei wneud ar y cwrs, dylid rhoi gwybod i'r tîm ADY neu Les ar unwaith. Rhaid codi unrhyw faterion diogelu sy'n codi o'r datgeliad hwn gydag aelod o'r tîm diogelu.

iv. Lle mae pryderon iechyd yn effeithio ar bresenoldeb, ymddygiad a/neu ymgysylltiad â dysgu, bydd tiwtoriaid bugeiliol yn cefnogi dysgwyr trwy gynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol (Atodiad 1)

Prosesau derbyn

i. Fel coleg sydd wedi'i lywio gan drawma, mae Coleg Dewi Sant yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bob dysgwr fynediad teg at gyfleoedd dysgu addas sy'n eu galluogi i gyflawni ei lawn botensial. Mae'n hanfodol bod y coleg yn cyflawni ei ddyletswyddau ei hun o ran sicrhau bod ymgeiswyr yn ffit yn gorfforol ac yn emosiynol ac yn gallu ymgymryd â a chymryd rhan ym mhob agwedd ar ddysgu.

ii. Rhaid i'r coleg rhoi sylw i'w ddyletswydd gofal mewn perthynas â diogelwch, iechyd a lles a diogelu ei ddysgwyr a staff. Os bydd y coleg yn teimlo bod gwybodaeth annigonol ar gael i wneud penderfyniad gwybodus ar reoli risg ar sail datgeliad, byddwn yn gofyn am ganiatâd penodol ymgeisydd i gael rhagor o wybodaeth a thystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol. Os bydd y dysgwr yn gwrthod cais y coleg am ganiatâd i geisio gwybodaeth bellach, mae'r coleg yn cadw'r hawl i amlygu hyn mewn unrhyw asesiad risg.

Cam 1: Pryderon yn Dod i'r Amlwg

Yn berthnasol pan fydd pryderon yn dod i'r amlwg am ymddygiad, iechyd, diogelwch neu les dysgwr yn cael eu codi. Gallai'r pryderon hyn gynnwys:

- **Unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith andwyol ar eraill**
- **Ymddygiad sy'n gwneud dysgu'n amhosibl**
- **Ffrwydradau Dig**
- **Ymddieithriad llwyr**
- **Symptomau Seicosis**
- **Dirywiad mewn iechyd meddwl ac emosiynol gwael sy'n gofyn am reoli risg**
- **Cyfnodau estynedig o absenoldeb oherwydd iechyd meddwl neu gorfforol gwael**

i. Trefnir cyfarfod archwiliadol cefnogol yn cynnwys staff perthnasol megis tiwtor Bugeiliol y dysgwr, athrawon pwnc, y Rheolwyr Maes Dysgu priodol, swyddogion Lles a Diogelu neu Gyfarwyddwyr Diogelu ac Ysgoloriaeth, Lles a Gofal Bugeiliol neu Anghenion Dysgu Ychwanegol.

ii. Cynhyrchir cynllun iechyd a chymorth ychwanegol (HASP) lle bydd cymorth yn cael ei gynnig i'r dysgwr. Bydd hyn yn cytuno ar gamau gweithredu gyda'r dysgwr a pha gymorth ychwanegol y gall y coleg ei ddarparu i gefnogi'r dysgwr i ymgysylltu cymaint â phosibl â'i astudiaethau.

iii. Ym mhob achos lle mae dysgwr o dan 18 oed, dylid cysylltu â rhiant / gofalwr a dylent fod yn bresennol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Os yw'r dysgwr dros 18 oed, mae ganddynt hawl i gefnogaeth gan "oedolyn y gellir ymddiried ynddo" ond nid gan unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol.

iv. Rhaid darparu tystiolaeth ar gyfer yr angen am gyfarfod cam un a bydd cynllun gweithredu'n cael ei lunio gyda'r dysgwr. Ceisir caniatâd i ddatgelu gwybodaeth berthnasol i staff perthnasol fel sy'n briodol.

Cam 2: Pryderon cychwynnol parhaus neu gryf

Yn berthnasol pan fydd pryderon parhaus neu ddifrifol am iechyd, diogelwch neu les meddyliol dysgwr yn cael eu codi. Gallai hyn gynnwys achosion lle nad yw'r dysgwr wedi ymgysylltu â'r cymorth a gynigir gan y coleg fel y cytunwyd yn ei HASP. Dylai staff gyfeirio at aelod o'r tîm lles neu ddiogelu.

i. Trefnir cyfarfod archwiliadol cefnogol yn cynnwys staff perthnasol megis tiwtor Bugeiliol y dysgwr, athrawon pwnc, y Rheolwyr Maes Dysgu priodol, swyddogion Lles a Diogelu neu Gyfarwyddwyr Diogelu ac Ysgoloriaeth, Lles a Gofal Bugeiliol neu Anghenion Dysgu Ychwanegol. Bydd personél asiantaethau allanol yn cael eu gwahodd lle bo hynny'n addas.

ii. Ym mhob achos sy'n ymwneud â dysgwr o dan 18 oed, dylid cysylltu â rhiant / gofalwr a dylent fod yn bresennol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Os yw'r dysgwr dros 18 oed, mae ganddynt hawl i gefnogaeth gan oedolyn y gellir ymddiried ynddo ond nid gan unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol.

iii. Bydd trafodaethau’n cynnwys sefydlu a ellir rhoi addasiadau neu gefnogaeth rhesymol pellach ar waith i alluogi’r dysgwr i barhau â’i astudiaethau. Bydd ei HASP yn cael ei adolygu a'i ailystyried.

Gallai'r canlyniad fod:

- Tynnu'n ôl o'r cwrs gyda'r bwriad o ailgofrestru yn y dyfodol.
- Trosglwyddo i gwrs arall.

iv. Os gofynnir i ddysgwr dynnu'n ôl o gwrs astudio, gofynnir iddo wneud hynny'n wirfoddol. Os bydd dysgwr yn gwrthod, yna trosglwyddir yr achos i'r Cyfarwyddwr Ysgoloriaeth a Diogelu neu'r Cyfarwyddwr Lles a Gofal Bugeiliol i'w ystyried ar gyfer atal o'r coleg dros dro.

Cam 3: Pryder uniongyrchol a difrifol neu dim cynnydd ers cam 2

Yn berthnasol pan fydd materion uniongyrchol a difrifol neu lle nad oes unrhyw gynnydd wedi’i wneud o bryderon blaenorol a lle mae gweithredoedd neu ymddygiadau’r dysgwr yn peri risg sylweddol i iechyd, diogelwch, lles neu gynnydd academaidd ei hun neu eraill neu’n debygol o effeithio enw da’r coleg yn niweidiol.

i. Os yw’r achos yn ganlyniad digwyddiad sy’n perthyn i un o’r categorïau uchod, bydd y coleg yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn lleihau unrhyw berygl uniongyrchol i’r dysgwr neu eraill. Dylid hysbysu'r Cyfarwyddwyr Ysgoloriaeth a Diogelu, neu'r Cyfarwyddwr Lles a Gofal Bugeiliol neu aelod o'r UDA ar unwaith.

ii. Dylid gofyn i'r dysgwr weithio o bell nes y gellir cynnull cynhadledd achos – dylai hyn ddigwydd o fewn 5 diwrnod gwaith.

iii. Bydd llythyr yn nodi’r uchod yn cael ei anfon i gyfeiriad cartref y dysgwr a’r rhieni os yw’r dysgwr o dan 18 oed.

iv. Cynhelir cynhadledd achos gyda phartïon perthnasol o'r canlynol: Cyfarwyddwyr Ysgoloriaeth a Diogelu, Cyfarwyddwr Lles a Gofal Bugeiliol, Cyfarwyddwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Rheolwr Maes Dysgu perthnasol.

v. Ym mhob achos lle mae'r dysgwr o dan 18 oed, gofynnir i riant neu ofalwr fynychu. Dylid cyflwyno unrhyw adroddiadau meddygol neu gyfreithiol sy'n ymwneud â'r dysgwr i'r panel er mwyn hwyluso'r gwaith o lunio asesiad risg.

vi. Os cafodd y gynhadledd achos ei chynnull o ganlyniad i ddigwyddiad uniongyrchol a difrifol bydd yr asesiad risg yn hysbysu a ellir rhoi cynllun gweithredu cefnogol ar waith er mwyn i'r dysgwr aros yn y coleg. Yn yr achos hwn, dylid ailedrych ar y cynllun gweithredu/asesiad risg o fewn **tair** wythnos coleg i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud.

vii. Os yw'r panel wedi cwrdd oherwydd nad oes unrhyw gynnydd yn erbyn pryderon wedi'i wneud, dylid penderfynu a all y dysgwr aros ar y cwrs.

Gellir ystyried y canlyniadau canlynol:

- Tynnu'n ôl ei le yn y coleg
- Cwblhau'r cwrs fel dysgwr o bell

Apeliadau

i. Mae gan y dysgwr yr hawl i apelio pan fo penderfyniad wedi'i wneud i wahardd. Dylid gwneud pob apêl yn ysgrifenedig i'r aelod dynodedig o'r Uwch Dîm Rheoli o fewn pum diwrnod gwaith o'r penderfyniad. Bydd eu penderfyniad yn derfynol.

ii. Bydd penderfyniad i dynnu lle dysgwyr yn y coleg yn ôl yn atal dysgwr rhag gwneud cais am gwrs arall heb dystiolaeth gan weithiwr proffesiynol allanol, yn datgan ei fod yn addas i ddychwelyd i astudio a bydd cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r dysgwr a'r asiantaeth allanol cyn gwneud cais i ddychwelyd.

Atodiad 1 – Cynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol

Cynllun Iechyd a Chymorth Ychwanegol

Dyddiad y Cynllun:
Cwblhawyd gan:
Gwybodaeth y Dysgwr

Enw'r Dysgwr	
Rhif y Dysgwr	
Rhif Ffôn Symudol	
Presenoldeb Presennol	

Gwybodaeth perthynas agosaf

Enw Cyswllt, E-bost	
Rhif Ffôn Symudol	
Perthynas â'r dysgwr	

Manylion anghenion y Dysgwr:
(Trafodwch hyn â'r dysgwr)

Maes angen	Beth all y coleg ei wneud?

Cynllun cymorth

Cam gweithredu	Person sy'n gyfrifol	I'w gwblhau erbyn (dyddiad)	Sylwadau Adolygu

Cytundeb myfyriwr:

- **Rhaid i mi ymgysylltu â'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan y coleg**
- **Os ydw i'n absennol, rhaid i mi roi gwybod i'm tiwtor ac athro pwnc**
- **Os ydw i'n absennol, rhaid i'm rhiant/gwarcheidwad awdurdodi fy absenoldeb drwy Parent Advantage a chysylltu â'm tiwtor**
- **Byddaf yn anelu at gyrraedd targed y coleg o bresenoldeb o 100% a bod yn brydlon i bob gwers.**

Cytundeb partneriaeth:
Rwy'n llofnodi yma i gytuno i gwblhau'r camau gweithredu uchod a defnyddio'r ddogfen hon ar y cyd â'r polisi presenoldeb dysgwyr:

Enw (rôl)	Llofnod	Dyddiad

Dyddiad adolygu

Dyddiad	Adolygwyd gan	Unrhyw Newidiadau i'r cynllun?

Nodiadau cyfarfod ychwanegol

Dyddiad	Yn bresennol yn y cyfarfod	Nodiadau

Cymorth Mewnol yng Ngholeg Dewi Sant:

Adran	Gwybodaeth	Dolen
Cymorth Bugeiliol	Mae gennym staff addysgu ymroddedig a phroffesiynol wedi'u cynorthwyo gan staff cymorth rhagorol. Bydd pob myfyriwr yn cyfarfod â'u Tiwtor Bugeiliol ddwywaith yr wythnos i adolygu eu cynnydd a dilyn ein rhaglen fugeiliol ar Les.	https://cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/study-and-subject-information-2/
	Mae'r Ganolfan Cefnogi Dysgwyr (CCD) yn darparu profiad dysgu	https://cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/learner-support/

Canolfan Cefnogi Dysgwyr	cynhwysol ac unigolyddol ar gyfer ein dysgwyr niwroamrywiol. Y CCD yw'r lle i fynd am gefnogaeth a chyngor i fyfyrwyr sy'n cael trafferth gydag unrhyw agwedd ar Fywyd y Coleg, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).	
Lles a Diogelu	Mae gofalu am eich lles a'ch iechyd yn chwarae rhan allweddol mewn bod yn fyfyriwr llwyddiannus, rheoli eich llwyth gwaith, a meithrin sgiliau angenrheidiol i ddelio â'r hyn y gall bywyd ei daflu i'ch ffordd. Mae ein Tîm Lles ar gael i siarad â chi a rhoi cymorth ychwanegol i chi drwy gydol eich amser yng Ngholeg Dewi Sant.	https://cymraeg.stdavidscollege.ac.uk/wellbeing-safeguarding/

Adnoddau Allanol Defnyddiol:

Sefydliad	Gwybodaeth	Dolen
Y Samariaid	Os ydych chi angen rhywun i siarad â nhw, byddwn ni'n gwrando. Ni fyddwn yn barnu nac yn dweud wrthych beth i'w wneud.	https://www.samaritans.org/england-cy/how-we-can-help/contact-samaritan/
Childline	Rydyn ni yma i chi, beth bynnag sydd ar eich meddwl. Byddwn ni'n eich cefnogi. Eich arwain. Eich helpu i wneud penderfyniadau sy'n gywir i chi. Gall ein cynghorion a'n technegau, ein syniadau a'n hysbrydoliaeth eich helpu i deimlo bod gennych fwy o reolaeth. A gallwch gael mynediad iddynt yn eich amser eich hun, ar eich cyflymder eich hun!	https://www.childline.org.uk/info-advice/
Mind	Ni fyddwn yn rhoi'r gorau iddi nes bod pawb sy'n profi problem iechyd meddwl yn cael cefnogaeth a pharch.	https://www.mind.org.uk/
Gyrfa Cymru	Yn Gyrfa Cymru gallwn eich helpu i gynllunio'ch gyrfa, paratoi at gael swydd, dod o hyd i ac ymgeisio am brentisiaethau, cyrsiau a'r hyfforddiant cywir.	https://gyrfacymru.llyw.cymru/
Cymru'n Gweithio	Mae Cymru'n Gweithio'n gallu dy helpu yn ystod y cyfnod hwn o newid mawr trwy ddarparu cyngor, arweiniad a mynediad di-dâl at hyfforddiant i'th	https://cymrungweithio.llyw.cymru/

	helpu di i gael gwaith neu i ddatblygu dy yrfa.	
Rate My Apprenticeship	Dod o hyd i Brentisiaethau, Prentisiaethau Gradd, Rhaglenni Ymadawyr Ysgol a Swyddi ar Gyfer Ymadawyr Ysgol Chwilio am brentisiaethau a swyddi i ymadawyr ysgol a choleg yn eich ardal chi.	https://www.ratemyapprenticeship.co.uk/
Rhwydwaith75	Graddiwch gyda gradd, 5 mlynedd o brofiad gwaith a dim dyled myfyrwyr! Mae Rhwydwaith75 yn llwybr gwaith ac astudio cyfun i radd sy'n caniatáu myfyrwyr i Weithio, Ennill a Dysgu!	https://network75.southwales.ac.uk/hafan/
Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd	Mae Tîm Helpu Teuluoedd Caerdydd yn wasanaeth ymyrraeth gynnar sy'n cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth o safon i blant a phobl ifanc rhwng 0-18 oed (neu hyd at 25 oed yn achos person ifanc agored i niwed) a'u teuluoedd sy'n byw yng Nghaerdydd.	https://www.cardifffamilies.co.uk/cy/
Dewis Cymru	Dewis Cymru yw'r lle i fynd os ydych chi eisiau gwybodaeth neu gyngor am eich lles – neu eisiau gwybod sut i helpu rhywun arall. Dewch o hyd i help, gwasanaethau a gwybodaeth yn eich ardal chi.	https://www.dewis.cymru/

Atodiad 2 – Asesiad Risg Dysgwr

Enw:	Dyddiad geni:	ID Myfyrwyr:

Gwybodaeth Cefndir

Bygythiad:	Risg:
Nodweddion Gwaethygol:	Nodweddion Lliniaru:

Difrifoldeb y Risg:	Tebygolrwydd y Risg:	Lefel Effaith:

Partïon Cyfrifol:
Rhifau ffôn cyswllt:

	Derbyniol	Goddefadwy	Annymunol	Annioddefadwy
Annhebygol Risg yn annhebygol	ISEL	CANOLIG	CANOLIG	UCHEL
Posibl Mae'r risg yn debygol o ddigwydd	ISEL	CANOLIG	UCHEL	EITHAFOL
Tebygol Bydd y risg yn digwydd	CANOLIG	UCHEL	UCHEL	EITHAFOL

Cynllun Gweithredu Asesiad Risg

Problem Posib	Risgiau	Mesurau i Leihau Risg	Dyddiad y Cytunwyd gan y Dysgwr